OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 401 (Cy. 71)

# TRETH TRAFODIADAU TIR, CYMRU

## Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *22nd Mawrth 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *23 Mawrth 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 78(1) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017(**1**).

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2018.

**Diwygio Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2018**

**2.** Ar ôl rheoliad 9 o Reoliadau Treth Trafodiadau Tir (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2018(**2**), mewnosoder—

"**Tenantiaethau dal drosodd**

**9A.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r hen les y cyfeirir ati ym mharagraff 8(1) o'r Atodlen wedi ei rhoi cyn y dyddiad cychwyn.

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys—

(a) mae paragraff 8(1) o'r Atodlen yn gymwys i'r hen les;

(b) mae paragraff 8(3)(b) a (4) o'r Atodlen yn cael effaith fel pe bai "sy'n dod i ben ar y dyddiad cyn y dyddiad y rhoddir y les newydd" yn cael ei roi yn lle "sy'n dod i ben ar ddiwedd y blynyddoedd dal drosodd cyfan"; ac

(**1**) 2017 dccc 1.
(**2**) O.S. 2018/126 (Cy. 31).

(c) mae'r "rhent trethadwy" sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r denantiaeth dal drosodd at ddibenion paragraff 8(3) a (5)(b) o'r Atodlen i gynnwys y swm a ystyriwyd wrth bennu'r dreth a oedd i'w chodi o dan ddarpariaethau Atodlen 5 i DC 2003 am y cyfnod hwnnw.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr "yr Atodlen" yw Atodlen 6 i'r Ddeddf TTT."

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, un o Weinidogion Cymru

22 Mawrth 2018

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2018 er mwyn gwneud darpariaeth drosiannol bellach mewn cysylltiad ag achos penodol pan fo les cyfnod penodol yn parhau am gyfnod o fwy na blwyddyn ar ôl ei dyddiad terfynu contractiol (cyfnod a elwir yn gyfnod "dal drosodd"), ac yn cael ei hadnewyddu a'i hôl-ddyddio wedi hynny i ddiwrnod yn ystod y cyfnod dal drosodd.

Pan fo'r amodau ym mharagraff 8(1) o Atodlen 6 i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 wedi eu bodloni, caiff y rhent sy'n daladwy o dan y les newydd ei ostwng at ddibenion y dreth trafodiadau tir gan swm y rhent trethadwy sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r denantiaeth dal drosodd.

Mae'r diwygiad a wneir gan reoliad 2 yn sicrhau bod y gostyngiad sydd ar gael o dan baragraff 8(3) o'r Atodlen honno yn gymwys mewn cysylltiad â lesoedd a roddir cyn 1 Ebrill 2018 ond a adnewyddir ar y dyddiad hwnnw neu wedi hynny, er gwaethaf y ffaith bod treth dir y dreth stamp i'w chodi ar y rhent a oedd yn daladwy yn ystod y cyfnod dal drosodd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.